

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I SYLWEDDAU SEICOWEITHREDOL NEWYDD

Argymhelliad 1

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu darn o waith (mewn partneriaeth â chymheiriaid o fewn Llywodraethau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon os yw'n ddefnyddiol) ar frys er mwyn pennu'r dull gorau o fesur y defnydd o SSW ymhlith y boblogaeth yn rheolaidd fel y gellir deall i ba raddau y'u defnyddir yn well ac fel y gellir cynllunio gwasanaethau yn briodol. Dylai'r gwaith hwn ategu gweithgarwch tebyg a argymhellwyd gan Banel Arbenigol y Swyddfa Gartref ar SSW (argymhelliad 3.2) a dylai gael ei gwblhau erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad.

Ymateb: Derbyn

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal amcangyfrif o nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus, gan gynnwys SSW adfywiol, am y cyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2011-12 a 2020-21. Bydd y gwaith hwn yn dechrau'n fuan ac mae disgwyl yr amcangyfrif cyntaf ym mis Hydref 2015. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd ag UK Focal Point am gomisiynu amcangyfrif o nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau ledled y DU ac mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru'n eirioli'n gadarn dros gynnwys cannabinoidau synthetig yn y gwaith hwn.

Argymhelliad 2

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd 2015:

- yn cynnwys gwybodaeth wedi'i thargedu ar gyfer pobl ifanc;**
- â ffocws cryf ar y cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol;**
- yn pwysleisio'r neges nad yw bod yn gyfreithlon yn golygu ei fod yn ddiogel.**

Dylai ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ochel rhag defnyddio'r term "cyffuriau penfeddwol cyfreithlon" ("legal highs") i ddisgrifio SSW am ei fod yn rhoi'r argraff anghywir bod y sylweddau hyn yn ddiogel i'w defnyddio. Dylid rhannu canllawiau o'r fath â phob partner sy'n gweithio ar yr ymgyrch, gan gynnwys y cyfryngau.

Ymateb: Derbyn

Nid yw Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r term cyffuriau penfeddwol cyfreithlon ac nid yw wedi gwneud hynny ers nifer o flynyddoedd. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael sylw fel rhan o'r gwaith parhaus a wneir gyda'r llinell gymorth genedlaethol ar gyfer cyffuriau ac alcohol, DAN 24/7. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol a bydd yn canolbwyntio ar risgiau'r defnydd

o SSW, ynghyd â gwybodaeth sy'n berthnasol i derminoleg er mwyn cadarnhau'r neges nad yw cyfreithlon yn golygu diogel.

Argymhelliad 3

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu ymchwil er mwyn gwerthuso effaith ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd 2015 ar lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd o SSW a'u niwed. Dylai'r ymchwil hon anelu at asesu effeithiolrwydd yr ymgyrch a nodi'r meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth o SSW.

Ymateb: Derbyn

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â DAN 24/7 er mwyn gwerthuso effaith yr ymgyrch ac i gomisiynu meysydd gwaith pellach i greu mwy o ymwybyddiaeth o SSW yn seiliedig ar y canfyddiadau.

Argymhelliad 4

Dylai Gweinidogion Cymru werthuso'r broses o weithredu Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ar frys, gan bennu a yw'n cyflawni gwerth am arian ar y buddsoddiad a wnaed ac addysgu disgyblion am y niwed a achosir gan SSW. Dylai casgliadau'r gwerthusiad hwn lywio'r broses o weithredu argymhellion yr Athro Gordon Donaldson ar yr adolygiad o'r cwricwlwm yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wedi cael ei gwerthuso'n gadarnhaol ar sawl achlysur; cyhoeddwyd y gwerthusiad mwyaf diweddar yn 2011. Fel cyllidwyr y rhaglen ar y cyd, mae adolygiad arall o'r rhaglen gan y pedwar heddlu yng Nghymru a Llywodraeth Cymru ar fin dechrau a byddwn yn sicrhau bod yr adolygiad yn cynnwys asesiad o'r buddsoddiad a wneir i addysgu disgyblion am y niwed a achosir gan SSW. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cyfrannu at y gwaith o roi adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm yng Nghymru ar waith.

Argymhelliad 5

Dylai Gweinidogion Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn nodi dulliau pellach o wella addysg cyffuriau, yn enwedig mewn perthynas ag SSW, mewn ysgolion a gweithredu'n fwy cyson ledled Cymru. Dylai Gweinidogion Cymru ddarparu canllawiau er mwyn sicrhau bod pawb sy'n darparu addysg cyffuriau mewn ysgolion wedi cael hyfforddiant addas ac yn gymwysedig i wneud hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae swyddogion heddlu cymunedol yr ysgolion yn cyflwyno Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Mae cydlynwyr rhanbarthol (sy'n athrawon cymwysedig gydag o leiaf saith mlynedd o brofiad addysgu) yn arsylwi dwy

wers gan bob swyddog ym mhob blwyddyn academaidd ac mae'r cydlynedd cenedlaethol yn arsylwi o leiaf tri swyddog ym mhob heddlu bob blwyddyn hefyd. Mae hyn yn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a bod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu i blant a phobl ifanc. Bydd gweithgor sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, athrawon, swyddogion camddefnyddio sylweddau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cael ei sefydlu er mwyn adolygu cynnwys presennol y gwersi mewn perthynas â SSW. Hefyd byddwn yn ystyried pa waith pellach sydd angen ei wneud gyda sefydliadau addysg bellach ac uwch er mwyn darparu gwybodaeth am y risgiau a'r niwed cysylltiedig â SSW fel rhan o'r cynllun cyflawni tair blynedd ar gyfer camddefnyddio sylweddau sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau (ACS) ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r canllawiau ar gyfer pob sefydliad yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol sy'n cynnig cyfleoedd addysgol i blant a phobl ifanc dan 19 oed. Maent wedi cymryd lle Cylchlythyr Rhif 17/02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc ac maent yn darparu gwybodaeth fanwl am ddarparu ACS briodol yn unol â gofynion y cwricwlwm ac angen penodol, a rheoli digwyddiadau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys cefnogaeth, deddfwriaeth ac arfer da.

Argymhelliad 6

Dylai Gweinidogion Cymru ystyried cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth o SSW a'u niwed sy'n targedu rhieni yn benodol. Dylai'r ymgyrch hon ganolbwyntio ar alluogi rhieni i gael sgysiaau agored am y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio SSW a rhoi gwybodaeth gywir i'w plant fel y gallant wneud penderfyniadau hyddysg.

Argymhelliad 7

Dylai Gweinidogion Cymru weithio gydag arbenigwyr ym maes camddefnyddio sylweddau er mwyn datblygu llenyddiaeth berthnasol a phriodol ar SSW i rieni, ac annog pob ysgol yng Nghymru i roi'r wybodaeth hon i rieni disgyblion.

Ymateb: Derbyng Argymhellion 6 a 7.

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lawlyfr camddefnyddio sylweddau i rieni a gofawyr ar roi sylw i broblemau camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys SSW). Byddwn yn gweithio gyda DAN 24/7 i ehangu'r ymgyrchoedd parhaus i godi ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau er mwyn targedu rhieni a'u hannog i siarad â'u plant am SSW.

Mae llenyddiaeth camddefnyddio sylweddau wedi cael ei datblygu'n ddiweddar i rieni a'i dosbarthu'n eang i amrywiaeth o ddarparwyr ledled Cymru. Gwnaed y gwaith hwn ar y cyd ag asiantaethau darparu, gofawyr a defnyddwyr gwasanaeth ac mae'n cynnwys gwybodaeth briodol am SSW. Byddwn yn ailddosbarthu'r llenyddiaeth i ysgolion ac i ddarparwyr camddefnyddio sylweddau, er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosib.

Byddwn hefyd yn ystyried pa gefnogaeth bellach ellir ei darparu i addysgu rhieni am gamddefnyddwyr sylweddau fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, 2016-18.

Argymhelliad 8

Dylai Gweinidogion Cymru dreialu cyfleoedd hyfforddiant i rieni, fel rhaglen "How to drug proof your kids" Care for the Family. Dylai'r fath dreialu gael ei werthuso cyn i raglen hyfforddiant fwy cynhwysfawr i rieni gael ei chyflwyno.

Ymateb: Derbyn

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â rhanddeiliaid perthnasol ar werthuso'r rhaglen hon a rhaglenni tebyg, er mwyn i rieni sefydlu arfer gorau yn y maes hwn, cyn ystyried pa hyfforddiant pellach sydd ei angen.

Argymhelliad 9

Dylai Gweinidogion Cymru gyflwyno rhaglen hyfforddi genedlaethol ar SSW i staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd. Dylid ei threalu o fewn GIG Cymru yn y lle cyntaf.

Ymateb: Derbyn

Dechreuodd rhaglen hyfforddi genedlaethol ar SSW yn 2013 ac i ddechrau canolbwyntiodd ar meffedron. Hyd yma, mae 33 o sesiynau gwybodaeth meffedron wedi cael eu cyflwyno i 810 o weithwyr proffesiynol ledled Cymru. Hefyd mae llawlyfr lleihau niwed wedi cael ei lunio i gefnogi gweithwyr camddefnyddio sylweddau proffesiynol i ymateb i'r cynnydd mewn SSW adfywiol yn y GIG ac yn sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys yr asiantaethau hynny sy'n gweithio ar y cyrion ym maes camddefnyddio sylweddau.

Mae'r rhaglen hyfforddi'n parhau a byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ystyried pa gefnogaeth bellach sydd ei hangen ar gyfer staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd mewn perthynas â SSW, gan gynnwys hyfforddiant penodol ar ganabinoidau synthetig. Hefyd byddwn yn ystyried datblygu modiwlau e-ddysgu am SSW a chyffuriau eraill er mwyn i atal ac ymateb i gamddefnyddio sylweddau fod yn rhan fwy integredig o ddarparu gwasanaeth iechyd prif ffrwd.

Argymhelliad 10

Dylai Gweinidogion Cymru weithio gyda byrddau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus perthnasol er mwyn nodi'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn addasu gwasanaethau cymorth camddefnyddio sylweddau i ddiwallu anghenion defnyddwyr SSW a chefnogi camau ymyrryd cynnar. Dylai'r gwaith hwn gynnwys y canlynol:

- ystyried diwygio'r fframwaith comisiynu a rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymorth;**
- darparu mwy o wasanaethau galw heibio a chydleoli â gwasanaethau eraill.**

Ymateb: Derbyn

Mae problem SSW yn cael ei thrafod mewn cyfarfodydd rhanbarthol ac mae strategaethau comisiynu lleol wedi dechrau addasu i'r angen cynyddol yn y maes hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu hyfforddiant, wedi buddsoddi yn y rhaglen WEDINOS ac wedi creu llyfrynnau lleihau niwed i gefnogi gwasanaethau i newid eu harferion gwaith a chanolbwyntio ar amrywiaeth eang o sylweddau yn hytrach na dim ond cyffuriau Dosbarth A. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar ganllaw comisiynu adolygedig ar gyfer comisiynwyr camddefnyddio sylweddau a byddwn yn sicrhau bod y fersiwn terfynol a gyhoeddir yn cynnwys cyngor ar gomisiynu gwasanaethau SSW. Mae'r camau gweithredu sydd eu hangen i addasu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i gefnogi anghenion defnyddwyr SSW yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygiad y cynllun cyflawni newydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau, 2016-18.

Argymhelliad 11

Dylai Gweinidogion Cymru weithio gyda'r Swyddfa Gartref i ddatblygu strategaeth sy'n galluogi carchardai yng Nghymru i ymdrin yn effeithiol â'r cynnydd disgwylidig yn y defnydd o SSW o fewn carchardai yng Nghymru. Dylai'r strategaeth hon gynnwys y canlynol:

- dadansoddiad o'r gwersi a ddysgwyd o brofiadau mewn carchardai yn Lloegr;**
- manylion am y camau a gymerir i roi gwybodaeth wedi'i thargedu i garcharorion a hyfforddiant i staff carchardai.**

Ymateb: Derbyyn

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyyn yr angen am degwch ar draws pob sector triniaeth yng Nghymru ac mae'n gweithio'n agos â charchardai Cymru ar amrywiaeth o faterion cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys SSW. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (drwy gyfrwng rhaglen WEDINOS) yn ymwneud yn llawn â phob carchar yng Nghymru gan ddarparu hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth am y defnydd o SSW. Bydd y gwaith hwn yn parhau ochr yn ochr ag ymgysylltu ehangach ledled y DU.

Byddwn yn adolygu'r wybodaeth o gynllun peilot mewn 10 carchar yng ngogledd orllewin Lloegr er mwyn sefydlu gwell dealltwriaeth o raddfa'r defnydd o SSW, cyffuriau anghyfreithlon a meddyginiaeth ar bresgripsiwn mewn carchardai. Byddwn yn gweithio gyda staff carchardai Cymru er mwyn rhoi'r gwersi a ddysgir yn y cynllun peilot hwn ar waith.

Argymhelliad 12

Dylai Gweinidogion Cymru bennu eu disgwyliadau o ran cydgysylltu sectorau, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol, er mwyn ymdrin â'r defnydd o SSW a'i niwed. Dylai'r datganiad hwn o ddisgwyliad gael ei ategu gan amserlen ar gyfer adolygu cynnydd a pherfformiad. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Gweinidogion Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Gweinidogion y DU er mwyn sicrhau bod y dull cydgysylltiedig hwn o weithredu yn cynnwys y sector cyfiawnder troseddol.

Ymateb: Derbyyn

Rydym wedi cryfhau ein trefniadau llywodraethu drwy sefydlu Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, sy'n goruchwylio'r gwaith o weithredu 'Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Cymru 2008-2018 - Cydweithio i Leihau Niwed' a'r cynllun cyflawni cysylltiedig. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, asiantaethau statudol, asiantaethau cyfiawnder troseddol, y trydydd sector a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth. Ei rôl yw cynghori Gweinidogion, drwy gyfrwng swyddogion Llywodraeth Cymru, ar y cynnydd cysylltiedig ag unrhyw ffrydiau gwaith perthynol, problemau newydd ac unrhyw risgiau i roi'r strategaeth camddefnyddio sylweddau a'i chynllun cyflawni cysylltiedig ar waith. Mae'r bwrdd hwn yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

Mae'r Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn eu lle i gefnogi partneriaid i gyflawni'r ymrwymiad yn y strategaeth i wella ansawdd a chysondeb y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Ceir 25 o safonau craidd sy'n ceisio cryfhau'r llywodraethu a'r atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau; sicrhau bod dull o weithredu gyda'i ffocws ar ddinasyddion wedi'i integreiddio i bob gweithgaredd allweddol sy'n gysylltiedig â chynllunio, adolygu a darparu gwasanaethau; ac, yn y pen draw, sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o wasanaethau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol, yn ddiogel ac yn gymson ledled Cymru.

Hefyd rydym wedi sefydlu grŵp Cadeiryddion y Byrddau Cynllunio Ardal a bydd y cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni presennol a'r safonau camddefnyddio sylweddau craidd yn cael ei fonitro a phan fo hynny'n briodol, ei herio. Mae hyn yn ychwanegol at yr ymweliadau monitro blynyddol sy'n cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a chydweithwyr y Byrddau Cynllunio Ardal.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ag ystod eang o bartneriaid ar ddatblygu'r cynllun cyflawni nesaf ar gyfer camddefnyddio sylweddau, 2016-18. Bydd y camau gweithredu fydd eu hangen i roi sylw i SSW ar draws pob sector yn cael eu datgan yn y cynllun hwn a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r trefniadau llywodraethu a grybwyllwyd eisoes sydd yn eu lle i fonitro strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn croesawu argymhelliad panel arbenigol y Swyddfa Gartref ynglŷn â gwahardd cyflenwi SSW yn y DU, fel yr hyn a gyflwynwyd yn Iwerddon. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a etholir ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf er mwyn sicrhau y cymerir camau cynnar i ddatblygu argymhelliad y panel arbenigol. Wrth wneud hynny, dylai'r Gweinidog gofio – a phwysleisio - y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn sy'n awgrymu:

- na fydd deddfwriaeth yn unig yn datrys y problemau a achosir gan y defnydd o SSW yng Nghymru; ac**
- mai codi ymwybyddiaeth ac addysg a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar leihau'r defnydd o SSW a'r niwed cysylltiedig.**

Ymateb: Derby

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd deddfwriaeth ac addysg er mwyn mynd i'r afael â SSW ac mae wedi ysgrifennu at gadeirydd panel arbenigol Llywodraeth y DU yn cefnogi argymhellion yr adolygiad. Mae swyddogion camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru mewn cyswllt rheolaidd â'u cydweithwyr yn y Swyddfa Gartref a byddant yn gweithio â hwy er mwyn sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth sy'n mynd i'r afael â SSW yn adlewyrchu polisi ac amgylchedd cyflawni Llywodraeth Cymru yng Nghymru.

Argymhelliad 14

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, a gweinyddiaethau datganoledig eraill, i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw drafodaethau pellach ar gynigion y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymwneud ag SSW.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hystyried ar lefel y DU ac Ewrop. Er enghraifft, gwahoddir Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i gyflwyno safbwyntiau ar gynigion deddfwriaeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys SSW.

Mae Cymru wedi ffurfio cyswllt â'r Ganolfan Fonitro Ewropeaidd ar gyfer Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau (EMCDDA) ac mae'n cyflwyno adroddiadau iddi. Mae EMCDDA yn ceisio bod yn "fan cyfeirio" ar gyfer defnydd o gyffuriau i aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, gan gyflwyno "gwybodaeth ffeithiol, wrthrychol, dibynadwy a chymharol" am ddefnydd o gyffuriau, caethiwed i gyffuriau a chymhlethdodau iechyd cysylltiedig, gan gynnwys hepatitis, HIV/AIDS a thwbercwlosis.

Mae gan y Cyngor Prydeinig Gwyddelig ffrwd waith benodol sy'n canolbwyntio ar gamddefnyddio sylweddau ac mae'n darparu fforwm ychwanegol a defnyddiol ar gyfer holl weinyddwyr y DU, i ystyried dulliau ar y cyd o weithredu mewn perthynas â SSW. Mae'r dull hwn o weithredu ar y cyd yn gyfle i ni werthuso'r ymchwil a'r arferion presennol fel sail i benderfyniadau comisiynu a chanlyniadau yn y dyfodol.